Arweinyddiaeth

Trosolwg – Pa mor gyfreithlon mae'r llu o ran cadw pobl yn ddiogel a lleihau troseddu?

Mae arweinyddiaeth yr heddlu'n allweddol o ran galluogi llu i fod yn effeithiol, effeithlon a chyfreithlon. Fe wnaeth yr arolygiad hwn ganolbwyntio ar sut mae llu'n deall, datblygu ac arddangos arweinyddiaeth trwy ei ddatblygiad sefydliadol.

Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi cyflwyno disgwyliadau mewn cysylltiad â'r hyn mae arweinyddiaeth yn ei olygu o fewn y llu. Fodd bynnag, nid yw wedi cynnal arolwg o gapasiti arweinyddiaeth a'r gallu i archwilio hyn, ac felly ni all dweud ei fod yn gwbl ymwybodol o'r cryfderau, gwendidau a bylchau yn y maes hwn. Gwaethygir y broblem hon o ran datblygu arweinwyr y dyfodol. Mae gan y llu gynlluniau i ymgymryd ag arolwg o staff â gwerthusiad llawn, a fydd yn darparu rhai cipolygon iddo.

Er bod ganddo nifer o raglenni datblygu, nid ydynt yn cael eu cydgysylltu na'u gwerthuso. Felly, ni all y llu ddweud i ba raddau mae'n datblygu'r bobl gywir yn y ffordd gywir. Yn yr un modd, mae prosesau dewis ar gyfer recriwtio a dyrchafu'n anneffeithiol oherwydd nas seilir ar ddealltwriaeth glir o'r hyn mae ar y llu ei angen nag ar ddealltwriaeth lawn o amrywiaeth. Felly ni all y llu sicrhau ei fod yn gwbl gynrychiadol o'r cymunedau mae'n eu gwasanaethu ac mae risg ddifrifol na fydd yn gallu parhau i ddarparu'r lefelau sydd eu hangen o wasanaeth i'r cymunedau hynny.

Wedi dweud hynny, fe wnaethom ganfod bod y llu'n arloesol ar sawl cyfrif gan geisio nodi syniadau ac arloesi newydd, o'r tu allan ac o fewn y llu fel ei gilydd, a'i fod hefyd yn magu diwylliant roedd hyn yn cael ei annog ynddo.